PWYLLGOR IECHYD A DIOGELWCH
PRIFYSGOL BANGOR

Cyfarfod: 20 Mai 2015

h)

adlewyrchu’r newid mewn deddfwriaeth. GWEITHREDU: Grŵp Tasg Gweithredu Diogelwch / Ystadau a Chyfleusterau

x.

llogi cerbydau'n cynnig ffordd hawdd o archwilio a monitro, ac mae croeswirio yn arbennig o broblemus.

Yn dilyn yr Arolwg caiff nodyn atgoffa ynglŷn â diogelwch bysiau mini a gofynion cyffredinol gyrwyr/cerbydau ei anfon at Golegau / Ysgolion / Adrannau.

Mae trafodaethau i'w cynnal hefyd gyda'r Adran Gyllid i ganfod sut y gellir gwella eu systemau i gefnogi gofynion Polisi. Bydd hyn yn cynnwys, yng ngoleuni newidiadau'r DVLA, adolygiad o'r angen presennol i gynnal gwiriad blynyddol o drwyddedau gyrru'r sawl sy'n gyrru ar fusnes yn ymwneud â'r Brifysgol. GWEITHREDU: Grŵp Tasg Gweithredu Diogelwch /Cyllid /Gwasanaethau IaD

Yna caiff dyddiadau cwblhau eu pennu ar gyfer yr holl gamau gweithredu a nodir yn yr Adroddiad Adolygu.

464(c). ADOLYGIAD O DDIOGELWCH OFFER TRYDANOL

Rhoddwyd amlinelliad o'r Adolygiad i asesu lefel cyffredinol cydymffurfiad Colegau ac Adrannau â'r Safon Polisi Diogelwch Offer Trydanol. Nodwyd yr eitemau allweddol canlynol:

i. Cafwyd cynnydd sylweddol o ran lefel yr archwiliadau ffurfiol gweledol a phrofion (Profion PAT) o declynnau trydanol cludadwy, a'r broses o gadw cofnodion cysylltiedig, ers Adolygiad Diogelwch Offer Trydanol 2008.

ii. Gwelwyd gwelliannau sylweddol ar draws y rhan fwyaf o Adrannau; dim ond Adrannau bach iawn sydd heb roi system mewn lle.

iii. Mae systemau da blaenorol wedi cael eu gwella ymhellach mewn dau Goleg, gyda thraean â threfniadau da mewn lle yn y rhan fwyaf o Ysgolion ond gwendid o ran monitro canolog ac o fewn rhai sefydliadau.

iv. O'r ddau Goleg sy'n weddill, bydd un ohonynt yn ymgymryd â gwaith sylweddol dros yr haf i fynd i'r afael â meysydd lle mae angen gweithredu. Nid yw'r Coleg arall wedi cwblhau cynllun hyd yma.

Darperir adroddiad o'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd maes o law. GWEITHREDU: Gwasanaethau IaD

465. GRŴP TASG GWEITHREDU DIOGELWCH

Rhoddwyd crynodeb o waith y Grŵp Tasg a nodwyd y canlynol yn neilltuol:

[redacted]